**PWYLLGOR CYNLLUNIO**
**DYDD MERCHER, 6 GORFFENNAF 2022**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Cynllunio Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Cyfarfod mynychu o bell Dydd Mercher, 6 Gorffennaf 2022

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd Richard Lloyd (Cadeirydd)
Y Cynghorwyr: Mike Allport, Bernie Attridge, Chris Bithell, Helen Brown, Adele Davies-Cooke, Gladys Healey, Dave Hughes, Paul Johnson, Richard Jones, Hilary McGuill, Ted Palmer, Mike Peers, Dan Rose, Linda Thew, ac Antony Wren

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorydd Paul Cunningham

**HEFYD YN BRESENNOL:** Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi), Rheolwr Gwasanaeth – Strategaeth, Rheolwr Gwasanaeth – Datblygu, Uwch Beiriannydd – Rheoli Datblygiadau Priffyrdd, Arweinydd Tîm – Rheoli Datblygu, Swyddogion Cynllunio, Cyfreithiwr Gwasanaethau Cyfreithiol a Swyddogion Gwasanaethau Democrataidd

## 8. DATGAN CYSYLLTIAD

Datganodd y Cyng. Hilary McGuill gysylltiad personol ag eitem 6.2 – (061368) Newid defnydd tir i ddefnydd preswyl (Cymuned Teithwyr Sipsi), y safle i gynnwys un garafán statig, un garafán deithiol, gwaith trin dŵr a lle parcio i ddau gar a llawr caled ac isadeiledd cysylltiedig ar dir wrth ymyl Ashwood House, Church Lane, Aston Hill, Ewlo, Glannau Dyfrdwy, CH5 3BF. Eglurodd y Cyng. McGuill ei bod yn aelod o fwrdd New Homes a bod gan New Homes ddiddordeb yn y tir wrth ymyl y safle.

Hefyd, datganodd y Cynghr. Bernie Attridge a Ted Palmer gysylltiad personol ag eitem 6.2 (061368) gan fod gwrthwynebwyr wedi cysylltu â nhw ar sawl achlysur.

## 9. SYLWADAU HWYR

Rhoddodd y Cadeirydd gyfle i'r Aelodau ddarllen y sylwadau hwyr a oedd wedi'u dosbarthu cyn y cyfarfod a'u hatodi i'r eitem ar y rhaglen ar wefan y Cyngor:

https://cyfarfodyddpwyllgor.siryfflint.gov.uk/ieListDocuments.aspx?CId=490&MId=4999&Ver=4&LLL=1

Sylwadau Hwyr

## 10. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Mehefin 2022.

Cywirdeb:

Y Cyng. Richard Lloyd a gadeiriodd y cyfarfod ond mae wedi'i gofnodi fel Is-Gadeirydd yn Cadeirio dan yr eitem ar bresenoldeb.
Dywedodd y Cyng. Ted Palmer ei fod yn bresennol yn y cyfarfod a gofynnodd bod ei bresenoldeb yn cael ei nodi.

Yn amodol ar y newidiadau uchod cynigiodd ac eiliodd y Cynghr. Hilary McGuill a Paul Johnson fod y cofnodion yn gywir.

**PENDERFYNWYD:**

Yn amodol ar y newidiadau uchod, cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod cywir.

## 11. EITEMAU I'W GOHIRIO

Argymhellodd y Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi) y dylid gohirio eitem 6.2 – (061368) Newid defnydd tir i ddefnydd preswyl (Cymuned Teithwyr Sipsi), y safle i gynnwys un garafán statig, un garafán deithiol, gwaith trin dŵr a lle parcio i ddau gar a llawr caled ac isadeiledd cysylltiedig ar dir wrth ymyl Ashwood House, Church Lane, Aston Hill, Ewlo, Glannau Dyfrdwy, CH5 3BF. Argymhellodd y Prif Swyddog y dylid gohirio'r eitem oherwydd y sylwadau hwyr a dderbyniwyd ar ran y gwrthwynebwyr ar ôl cyhoeddi'r rhaglen. Roedd y sylwadau yn nodi materion nad oedd modd mynd i'r afael â nhw cyn i'r Pwyllgor ystyried yr adroddiad.

Cafodd yr argymhelliad ei gynnig gan y Cyng. Chris Bithell a'i eilio gan y Cyng. Mike Peers. Wrth fynd i bleidlais, cytunwyd i ohirio'r eitem.

**PENDERFYNWYD:**

Gohirio eitem 6.2 – (061368) Newid defnydd tir i ddefnydd preswyl (Cymuned Teithwyr Sipsi), y safle i gynnwys un garafán statig, un garafán deithiol, gwaith trin dŵr a lle parcio i ddau gar a llawr caled ac isadeiledd cysylltiedig ar dir wrth ymyl Ashwood House, Church Lane, Aston Hill, Ewlo, Glannau Dyfrdwy, CH5 3BF.

## 12. MAE ADRODDIAD Y PRIF SWYDDOG (CYNLLUNIO, AMGYLCHEDD AC ECONOMI

**PENDERFYNWYD:**

Cofnodi'r penderfyniadau fel y dangosir ar amserlen y Ceisiadau Cynllunio sydd wedi'i chynnwys fel atodiad.

## 13. AELODAU O'R CYHOEDD A'R WASG HEFYD YN BRESENNOL

Dim.

(Dechreuodd y cyfarfod am 1.00 pm a daeth i ben am 2.41 pm)

……………………………
**Y Cadeirydd**

Caiff cyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio eu gweddarlledu, a gellir eu gwylio drwy ymweld â’r llyfrgell gweddarllediadau yn:http://flintshire.public-i.tv/core/portal/home

**PWYLLGOR CYNLLUNIO 6 GORFFENNAF 2022**

| RHIF YR EITEM | CYNGOR TREF/ CYMUNED | SAFLE / CAIS | SYLWADAU TRYDYDD PARTI / AELODAU LLEOL | PENDERFYNIAD |
|---|---|---|---|---|
| 064256 | Cyngor Tref Bwcle | Cais llawn ar gyfer addasu atig (dormer) a chodi estyniad unllawr yn 26 Muirfield Road, Bwcle | Darllenwyd datganiad o wrthwynebiad ar ran preswylydd lleol, Margaret Walters. | Rhoi caniatâd cynllunio yn ddibynnol ar yr amodau sydd wedi'u nodi yn yr adroddiad, yn unol ag argymhelliad y swyddog. |
| 061368 | Cyngor Cymuned Penarlâg | Newid defnydd tir i ddefnydd preswyl (Cymuned Sipsiwn-Teithwyr). Y safle i gynnwys un garafán statig, un garafán deithiol, gwaith trin dŵr a lle parcio ar gyfer dau gar gyda llawr caled ac isadeiledd cysylltiedig ar dir wrth ochr Ashwood House, Church Lane, Aston Hill, Ewlo, Glannau Dyfrdwy, CH5 3BF | | Gohirio'r eitem yn sgil y sylwadau hwyr a dderbyniwyd ar ran y gwrthwynebwyr ar ôl cyhoeddi'r rhaglen. |
| 064316 | Cyngor Tref Bwcle | Cais llawn – Trosi eiddo preswyl yn dŷ amlfeddiannaeth 7 ystafell wely | Siaradodd Lisa Walsh, yr ymgeisydd, o blaid y cais.<br><br>Darllenwyd datganiad o wrthwynebiad ar ran preswylydd lleol, Paula Watterson. | Gwrthod rhoi caniatâd cynllunio, yn groes i argymhelliad y swyddog, am y rhesymau canlynol:<br>• Dim digon o le parcio<br>• Effaith bosibl y materion parcio ar yr ardal leol<br>• Gofod mwynder annigonol |

| RHIF YR EITEM | CYNGOR TREF/ CYMUNED | SAFLE / CAIS | SYLWADAU TRYDYDD PARTI / AELODAU LLEOL | PENDERFYNIAD |
|---|---|---|---|---|
| 061388 | Cyngor Tref Bwcle | Cais amlinellol – ailddatblygu hen orsaf heddlu Bwcle<br>Yn cynnwys dymchwel yr adeilad presennol a chodi 9 rhandy newydd a mannau parcio cysylltiedig, gyda'r holl faterion wedi'u cadw'n ôl ac eithrio mynediad, cynllun a maint | Darllenwyd datganiad o wrthwynebiad ar ran y Cyng. Carol Ellis, Aelod Lleol. | Rhoi caniatâd cynllunio yn ddibynnol ar yr amodau sydd wedi'u nodi yn yr adroddiad, yn unol ag argymhelliad y swyddog, gyda'r amod ychwanegol canlynol:<br>• Deunyddiau i'w cyflwyno a'u cytuno arnynt |